# Da Byw

## Hyfforddiant Achrededig

Cefnogwyd **52** unigolyn o **42** busnes

Roedd y cyrsiau poblogaidd a gwblhawyd yn cynnwys:

| Cwrs | Nifer wedi'i hawlio |
|---|---|
| DIY Ffrwythloni Artiffisial | 30 |
| Iechyd, Lloches a Rheoli Lloi (ar gyfer y sector bîff a'r sector llaeth) | 10 |
| Cymorth Cyntaf ar gyfer y Traed (gwartheg) | 18 |
| Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel | 7 |
| Defnyddio Meddyginiaethau Milfeddygol mewn modd Diogel | 3 |
| Sganio Gwartheg | 5 |
| Technegau Ŵyna | 1 |

**Adborth:** *"Cwrs ardderchog, wedi dysgu llawer, manwl iawn, sesiwn ymarferol yn dda iawn hefyd, yn drefnus iawn, yn werth chweil"* (Cwrs DIY)

*"Pan ddaw mis Awst, byddaf yn gallu rhoi'r sgiliau a ddysais ar waith ar fferm gyda'n lloi ein hunain."* (Rheoli Lloi)

## E-Ddysgu

Cefnogwyd **91** unigolyn o **58** Busnes

Roedd y cyrsiau poblogaidd a gwblhawyd yn cynnwys:

| Modiwlau | Unigolion wedi'u cefnogi |
|---|---|
| Uned Orfodol: Ffrwythloni Artiffisial | 30 |
| Uned Orfodol: Cloffni mewn Gwartheg | 27 |
| Erthylu mewn Mamogiaid | 3 |
| Ŵyna Sylfaenol | 3 |
| Ysbaddu Lloi | 2 |
| Goroesi Ŵyna | 2 |
| Cyflyrau Llygaid mewn Gwartheg | 2 |
| Bioddiogelwch (Da Byw a Thir) | 2 |
| Ymwrthedd i Wrthfiotigau | 2 |

## Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Cadw lloi dan do a chlefydau resbiradol buchol

## Podlediad

**Rhifyn 98:** Amonia- y broblem a sut i gyfyngu ar allyriadau o arferion ffermio

## Rhaglen Geneteg Defaid Cymru

**Prosiect Bridio ar gyfer Lleihau Methan:**

**1,153** Casglwyd data gan 1,153 o ŵyn ar gyfer y prosiect lleihau allyriadau methan yn 2023/2024.

**Nod:** Creu set data a fydd yn caniatáu ar gyfer llunio gwerthoedd bridio tybiedig (EBV) methan mewn diadelloedd mynydd.

Dechreuodd y gwaith o gasglu data ym mis Rhagfyr 2023 a mis Ionawr 2024 a oedd yn cynnwys defnyddio sganio CT i fesur cyfaint a newidiadau yn y rwmen, yn ogystal â PAC (siambrau casglu cludadwy) i fesur allyriadau methan o bob oen a oedd yn rhan o'r prosiect.

**Prif ganfyddiadau hyd yn hyn:**

Siambrau Casglu Cludadwy (PAC):



- Llawer o amrywiaeth mewn allyriadau methan rhwng diadelloedd
- 20% uchaf o'r ddiadell yn allyrru 30-50% yn fwy o fethan o'i gymharu ag 20% isaf y ddiadell.

Sganio CT:

- Oen trymach = rwmen mwy
- Cyfaint rwmen cyfartalog o 4.5 litr (wedi'i addasu ar gyfer LWT)
- Amrywiaeth o 1-2 litr naill ochr o'r cyfartaledd o fewn diadelloedd.

## Mentora

**42** unigolyn wedi cael eu mentora

**132** awr o fentora

**102** sesiwn fentora

Roedd **38%** o'r holl sesiynau mentora'n ymwneud â'r thema hon

Mae'r pynciau a drafodwyd mewn sesiynau mentora yn cynnwys:

| |
|---|
| Hyfforddi cŵn defaid |
| Maeth da byw |
| Lloia |
| Hwsmonaeth wyna |
| Gwelliant genomig yn y fuches laeth |
| Bridiau ar gyfer pori cadwraethol |

Mae dyfyniadau o ddyddiaduron mentora'n cynnwys:

1. Buom yn trafod pwysigrwydd maeth mamogiaid a hwsmonaeth cyn ac yn ystod y cyfnod ŵyna.
2. Rhagor o drafodaeth ynglŷn â manteision ac anfanteision buches sugno'r mentai. Maent wedi colli dau i dri mis o ran y dyddiad dechrau lloia. Mentai i ystyried cynnal profion gwaed ar hanner dwsin ohonynt.
3. Mae'r ci yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau chwith a dde ac mae'n gwella o ran y gorchymyn i stopio. Mae'r ci a'r perchennog wedi gwella gan ei bod wedi dechrau bod yn fwy llym gyda'r ci, ac mae'n gwrando'n well ar ei chyfarwyddiadau.

## Rhwydwaith Ein Ffermydd

**33** Prosiect Rhwydwaith Ein Ffermydd yn canolbwyntio ar dda byw, gan gynnwys:

**Graianfryn:**
- Gwella iechyd a lles lloi

**Cyllid Arbrofi:**
- Arbrawf llaeth yn targedu iechyd lloi

**Prosiect Cymru gyfan:**
- Grŵp meincnodi iechyd y pwrs/cadair a pherfformiad godro yng Nghymru
  - Nod y prosiect yw meincnodi iechyd y gadair ac effeithlonrwydd godro ar bedair fferm laeth ledled Cymru i bennu effaith strategaeth reoli fwy cost effeithiol ar ansawdd llaeth, achosion mastitis ac AMR ar ffermydd

## Grwpiau Trafod

**48 Nifer y Cyfarfodydd Grwpiau Trafod**

**407** Nifer y mynychwyr

**109 oriau o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus**

Geiriau Allweddol: Pesgi Bîff, Mastitis, Clefydau Anifeiliaid, Dwysfwyd v porthiant, Sicrhau'r cynhyrchiant llaeth gorau

## Gwasanaeth Cynghori

Bu'r Gwasanaeth Cynghori'n cefnogi'r achosion canlynol o gyngor i fusnesau cymwys yng Nghymru:

**Iechyd Anifeiliaid** **166**

**Rheoli a Pherfformiad Da Byw** **12**

Adborth:

*"Adolygu'r drefn odro a lleihau problemau gyda'r pwrs/cadair."*

*"Eglurhad a gwybodaeth drylwyr iawn."*

## Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

**5 igwyddiad**

**97** o fynychwyr

Roedd digwyddiadau'n cynnwys: Gwneud y gorau o'ch offer EID ar gyfer sicrhau gwelliannau geneteg, Digwyddiad Bridio a Geneteg ym marchnad Caerfyrddin

## Agrisgôp

### 6 cyfarfod Agrisgôp wedi cymryd lle:

**39** o fynychwyr

**17 awr**

**Bu'r grwpiau canolbwyntio ar y canlynol:**

1. Adolygwyd y llwyddiannau a'r heriau'n ymwneud ag iechyd y traed ar fferm un o aelodau'r grŵp. Cafodd y data ar glwyfau ei adolygu a'i feincnodi yn erbyn aelodau eraill, a chafwyd trafodaeth ynglŷn â'r sgoriau symudedd. Roedd y prif negeseuon yn ymwneud â'r lle o amgylch cafnau dŵr, lliniaru gwres ac arwynebau llawr. Awgrymwyd pwyntiau gweithredu gan y grŵp.
2. Ystyriwyd y grŵp TB Sir Benfro gwahanol bynciau y dylen ei drafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, gan gynnwys: Pasteureiddio colostrwm a llaeth cyflawn i'w fwydo i loi, brechu gwartheg rhag BCG, unedau arwahanu TB, parhad busnes yn ystod achosion o TB, profion TB, symudiadau gwartheg a phrynu gwybodus, rheoli slyri, bioddiogelwch, organig a goblygiadau o ran TB.
3. Bu'r grŵp effeithlonrwydd cig coch yn ymweld â Chanolfan Gwyddoniaeth Filfeddygol Cymru yn Aberystwyth, IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth a Dafydd Parry Jones ym Maesllwyni.

## Iechyd a Lles Anifeiliaid

**20** Darparwyd gweithdy

**226** o unigolyn

**165** o fusnesau

Darparwyd 20 gweithdy, yn trafod y pynciau canlynol:

| Gweithdy | Nifer yr unigolion a gefnogwyd |
|---|---|
| Colledion Ŵyna Rhan 2: Colledion ar ôl ŵyna o enedigaeth hyd at ddiddyfnu | 54 |
| Cloffni mewn defaid | 41 |
| Gwella perfformiad ŵyn ar ôl diddyfnu | 25 |
| Deall Clefyd Johne's | 24 |
| Rheoli parasitiaid defaid Rhan 1: Llyngyr a Phryfed Chwythu | 20 |
| Ymwrthedd i Wrthfiotigau | 15 |
| Lleihau Cloffni mewn Gwartheg Llaeth | 14 |
| Colledion Ŵyna Rhan 1: Erthylu a Maeth | 13 |
| Sicrhau Cynhyrchiant y Fuches Sugno | 12 |
| Sicrhau'r ffrwythlondeb gorau posibl: rheoli'r fuwch laeth o'r cyfnod sychu i droi at y tarw | 8 |



Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**